TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mae'r addolwyr hyn yn dal i gofio 'tyrfâu y dyddiau da' pan oedd y capeli'n llawn.

Ond ai edrych yn ôl yn hiraethus i'r gorffennol y maen nhw?

Neu a oes rheswm mwy cadarnhaol ganddyn nhw dros barhau i weddïo ac i godi'r gân fel yn y gorffennol?

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

Beth, dybiwch chi, yw barn bersonol y bardd am yr addolwyr yn ei gerdd?

- A yw e'n ddilornus ohonyn nhw?
- A yw'n synnu atyn nhw?
- A yw'n methu'n lân â'u deall nhw?
- A yw e'n eu hedmygu nhw?
- Neu a yw e'n cenfigennu wrthyn nhw, hyd yn oed?

Beth yw'r dystiolaeth yn y gerdd sy'n cefnogi eich safbwynt chi am farn bersonol y bardd?

TASG 3 : YSGRIFENNU (DISGRIFIADOL)

A fuoch chi mewn capel neu eglwys erioed?

Os y buoch, sut le, felly, yw capel? Ceisiwch ystyried nid yn unig natur yr adeilad ei hun, ond hefyd naws a theimlad y lle, ynghyd â natur y bobl oedd yno yn ystod eich ymweliad/au chi.

Os na fuoch chi y tu mewn i gapel neu eglwys erioed, mae'n siŵr eich bod wedi eu gweld nhw o'r tu allan. Dychmygwch, felly, sut le sydd y tu mewn iddyn nhw.

a) Ysgrifennwch ddisgrifiad byr o'r capel neu'r eglwys (150 o eiriau).

b) Wedi ysgrifennu'r disgrifiad, beth am geisio troi'r disgrifiad yn gerdd? Ceisiwch ddewis darnau gorau'r disgrifiad, a'u haildrefnu a'u cywasgu i 12 llinell, gan sicrhau bod y dweud mor fachog a difyr ag sy'n bosib.

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Rydych chi'n darllen erthygl yn y papur lleol am gapel yn eich cymuned chi sydd wedi gorfod cau a chael ei werthu oherwydd nad oes neb yn mynd iddo bellach. Mae'r erthygl yn sôn fod diddordeb gan gwmni siopau betio brynu'r capel a throi'r adeilad yn siop fetio. Mae barn y gymuned wedi'i hollti'n ddwy gan y stori hon: hanner y gymuned o blaid y datblygiad, a'r hanner arall yn chwyrn yn ei erbyn.

Ysgrifennwch lythyr (200-250 o eiriau) i'r papur lleol yn mynegi eich safbwynt chi, gan geisio darbwyllo'r darllenwyr i gytuno â chi. Cyflwynwch gyfres o ddadleuon bachog dros neu yn erbyn y datblygiad.

Os yw'n haws, esguswch eich bod yn rhywun gwahanol i chi eich hun, er enghraifft:

- beth am ddychmygu eich bod chi'n gyn-aelod o'r capel,
- neu eich bod chi'n fetiwr brwd,
- neu eich bod chi'n fam neu'n dad i blant ifanc?